

GWYBODAETH
I DDISGYBLION

Canllaw i'r Cyfarfodydd Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Os wyt ti, neu rywun yn dy deulu neu sy'n gweithio gyda thi yn yr ysgol neu y tu allan iddi, yn meddwl dy fod ti angen help ychwanegol yn yr ysgol, bydd cyfarfod yn cael ei gynnal i siarad am hyn.

Bydd y cyfarfod yma'n '**Canolbwyntio ar yr Unigolyn**', sy'n golygu mai ti a'r pethau sy'n bwysig i ti fydd yn cael y sylw pennaf.



RHONDDA CYNON TAF



Pwy fydd yn y cyfarfod?

- Ti, wrth gwrs - a bydd modd i ti ddod â rhywun gyda thi i dy helpu di i ddweud beth rwyf ti eisiau'i ddweud. Bydd y person yma hefyd yn gwneud yn siŵr dy fod ti'n cael dy glywed.
- Bydd dy rieni a/neu'r bobl sy'n edrych ar d'ôl di yn cael eu gwahodd.
- Staff ysgol sy'n dy adnabod di'n dda, a phobl eraill sydd efallai'n gweithio gyda thi yn yr ysgol (neu y tu allan i'r ysgol).



Beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod?

Byddwn ni'n siarad am:

- Beth rwyf ti'n ei hoffi, ei edmygu a'i werthfawrogi amdanat ti dy hun a beth rydyn ni'n ei hoffi, ei edmygu a'i werthfawrogi amdanat ti.
- Beth sy'n bwysig i ti.
- Beth sy'n gweithio'n dda i ti.
- Beth fyddai'n gallu bod yn well i ti.
- Beth sy'n bwysig i ni'i wneud ar dy gyfer di.

Bydd rhywun o'r ysgol/coleg yn teipio beth mae pawb yn ei ddweud ar sgrin. Byddi di'n gallu gweld hyn.

Byddwn ni'n gwneud penderfyniadau am yr help sydd ei angen arnat ti o bosibl yn yr ysgol/coleg.

Os taw adolygiad yw hwn, byddwn ni'n siarad am sut mae'r cynlluniau a wnaethon ni yn y cyfarfod diwethaf wedi gweithio (neu ddim wedi gweithio) i ti.



Os na fydda i eisiau mynd, beth fydd yn digwydd?

Bydd rhywun yn gallu rhoi copi o dy sylwadau i'r bobl yn y cyfarfod neu fe allet ti wneud fideo, Powerpoint ac ati fel bydd y bobl yn y cyfarfod yn clywed beth sy gyda ti i'w ddweud.

Mae'n bwysig dy fod ti'n dweud beth sy'n bwysig i ti.

Efallai y byddai'n well gyda thi fod yn y cyfarfod yn rhithwir (ar sgrin), neu ymuno am ran ohono ac yna dilyn gweddill y cyfarfod ar dy gyfrifiadur.



Pa mor hir bydd y cyfarfod?

Gall y cyfarfod gymryd rhwng 1-2 awr.

Efallai na fyddi di eisiau aros tan y diwedd. Bydd croeso i ti ddod am ran o'r cyfarfod neu fod yn bresennol 'yn rhithwir'.




Pa help sydd ar gael i mi ateb y cwestiynau sy'n cael eu trafod?

Mae llawer o wahanol bethau gallet ti eu gwneud gyda staff yr ysgol i feddwl am y rhain cyn y cyfarfod. Gallet ti feddwl am y bobl sy'n bwysig i ti, beth sy'n dy helpu i gael diwrnod da, beth yw dy obeithion a dy uchelgeisiau am y dyfodol.



Os na fydda i'n fodlon, beth fydd yn digwydd?

Caiff ffrind agos, aelod o'r teulu, gweithiwr cymdeithasol, athro neu diwtor dy helpu di a gwneud yn siŵr bod dy farn, dy deimladau a dy feddyliau yn glir i bawb.



Lle i ysgrifennu beth sydd yn fy meddwl...